**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021 (yn electronig drwy Microsoft Teams a'i ffrydio'n fyw ar y we)**

HEB EU CADARNHAU

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) (o 10.20am) |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) |
| Fu-Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RB-W) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Sally Attwood | (SA) | Cyfarwyddwr Pontio Iechyd a Llesiant |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |

| | | |
| --- | --- | --- |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Alisha Davies | (AD) | Pennaeth Ymchwil a Gwerthuso (eitem 4.1) |
| Lucy Jugusseur | (LJ) | Rheolwr Archwilio (ar ran y Pennaeth Archwilio Mewnol) |
| Gillian Knight | (GK) | Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru (eitem 3.1) |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Leah Morantz | (LM) | Pennaeth Cyfathrebu |
| Jamie Topp | (JT) | Golygydd Digidol |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant |
| Paul Daulton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd Fforwm Partneriaeth y Staff |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Verity Winn | (VW) | Archwilio Cymru |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10am*

**PHW 283/2021 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd KE bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwylio'r cyfarfod ar-lein. Crynhodd rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am: bennu cyfeiriad strategol; llunio a chynnal partneriaethau strategol; pennu archwaeth risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a phennu naws a diwylliant y sefydliad.

Dywedodd KE fod y Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Chod Ymddygiad ffurfiol y Bwrdd; roedd hyn i'w weld ar y wefan ac yn darparu ar gyfer darllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod. Roedd hyn yn gwneud y gorau o'r amser trafod a fyddai ar gael ar y diwrnod.

Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb gan: Jan Williams; Yr Athro Mark Bellis; Paul Daulton; Stephanie Wilkins a Verity Winn.

**PHW 284/2021 Datganiadau o Fuddiannau**

Ni ddatganodd aelodau'r bwrdd unrhyw fuddiannau'n ychwanegol at y rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**PHW 285/2021 Partneriaethau Strategol**

**PHW 285.1/2021 Nursing Now Cymru Wales**

HEB EU CADARNHAU

Cyflwynodd RB-W Adroddiad Grŵp Llywio *Nursing Now* Cymru Wales. Nododd fod ymgyrch *Nursing Now* wedi deillio'n wreiddiol o Grŵp Traws Seneddol a daeth yn fenter fyd-eang wedi'i chefnogi gan Sefydliad Iechyd y Byd a'r Cyngor Nyrsio Rhyngwladol. Nod *Nursing Now* yw codi proffil nyrsio a bydwreigiaeth, gan dynnu sylw at eu heffaith o ran gwella iechyd a hybu llesiant.

Cyfeiriodd RB-W at sefydlu Grŵp Llywio *Nursing Now* yng Nghymru ym mis Mawrth 2019, gyda chynrychiolaeth draws-sector gan gynnwys o'r byd academaidd, y Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, GIG Cymru, y sector annibynnol a'r trydydd sector. Cyhoeddwyd yr Adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran y Grŵp Llywio.

Yna gwahoddodd RB-W Gillian Knight, Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru, i roi rhagor o fanylion. Croesawodd Ms Knight rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran arwain a chydlynu datblygiad yr Adroddiad ac amlinellodd sut yr oedd y gwaith wedi helpu i hybu datblygiad proffesiynol ledled Cymru: gan ddylanwadu ar addysg, ymchwil ac arweinyddiaeth ar lefel strategol yn ogystal â dylanwadu ar weithredu arfer da yn eang ac yn gyflym a hyrwyddo amrywiaeth. Fe wnaeth sylw hefyd ynglŷn ag ymgyrch *Nursing Now* sy'n cryfhau'r cysylltiadau ag Affrica.

Diolchodd KE i GK a RB-W am y cyflwyniad a'r crynodeb ac yna gwahoddodd gwestiynau:

- Croesawodd SG yr adroddiad a nododd y potensial i ehangu'r broses o ledaenu'r gwaith yn fyd-eang. Dywedodd RB-W fod Prifysgol Caerdydd wedi dechrau gweithio ar ddatblygu a chynnal cysylltiadau byd-eang, gwaith a fyddai'n parhau er gwaethaf effaith cyfyngiadau cyllido. Cadarnhaodd GK y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli dramor gyda ffocws o'r newydd wrth i Gymru adfer o'r pandemig.
- Diolchodd TC i RB-W a GK am eu rôl yn y gwaith hwn a chroesawodd y cadarnhad y byddai'r ymgyrch hon yn un barhaus yn hytrach nag ymgyrch a fyddai'n para am gyfnod penodol. Gofynnodd sut y byddai'r heriau yn sgil y pandemig COVID-19 yn dylanwadu ar y gwaith a'r themâu, wrth i'r mudiad fynd yn ei flaen. Cadarnhaodd RB-W fod gweithdy diweddar wedi profi'r angen i ddiweddaru'r bwriadau a'r themâu, yn dilyn effeithiau'r pandemig ond bod y gweithdy wedi dod i'r casgliad eu bod yn parhau i fod yn berthnasol; roedd hyrwyddo gwytnwch yn elfen sylfaenol. Dywedodd RB-W hefyd fod Cynulliad Iechyd y Byd, yn ei gyfarfod diweddar, wedi cydnabod a chefnogi ymgyrch *Nursing Now*; hwn oedd y gymeradwyaeth gyntaf yn ymwneud â nyrsio mewn degawd.

Diolchodd KE unwaith eto ar ran y Bwrdd i RB-W a GK am eu gwaith o ran symud yr ymgyrch yn ei blaen yng Nghymru.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd Adroddiad Grŵp Llywio *Nursing Now* Cymru Wales 2021.

HEB EU CADARNHAU

**PHW 286/2021 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

**PHW 286.1/2021 Diweddariad ar Ymchwil a Gwerthuso**

Nododd KE fod y Bwrdd, ym mis Mawrth 2021, wedi cael diweddariad ar ymchwil a gwerthuso; roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu diweddariad pellach ymhen chwe mis. Roedd y diweddariad a oedd ar yr agenda yn rhoi cyfle i'r Bwrdd ystyried cynnydd cyn ailsefydlu'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd. Croesawodd IB ac AD i'r cyfarfod a'u gwahodd i roi'r diweddariad.

Wrth gyflwyno'r diweddariad, nododd IB ei fod yn canolbwyntio ar y gweithgaredd ymchwil sy'n benodol i'r Is-adran Ymchwil a Gwerthuso, yn hytrach na gweithgaredd ymchwil sydd ar y gweill ar draws y sefydliad cyfan; cadarnhaodd fod yr uchelgais terfynol yn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu dull sefydliad cyfan o gipio ac ystyried gwybodaeth ac ymchwil. Roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo a byddai'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd yn cael adroddiadau ar gynnydd cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Bwrdd.

Rhoddodd AD grynodeb o ran y cynnydd hyd yma mewn perthynas ag iechyd y boblogaeth a'r ymateb i COVID-19. Cadarnhaodd y byddai'r mecanweithiau monitro a ddatblygwyd ac a sefydlwyd yn parhau. Roedd gwaith ar y gweill hefyd i olrhain ymgysylltiad ag ymchwil drwy arolygon ôl-gyhoeddi, gan nodi sut y defnyddiwyd ymchwil i gefnogi newid. Byddai'r dull systematig hwn yn y dyfodol yn cynnwys olrhain cyllid ymchwil a chanlyniadau.

Gwahoddodd IB sylwadau a chwestiynau:

- Llongyfarchodd TC y tîm am barhau i wneud cynnydd, er bod staff wedi'u hadleoli i gefnogi rolau'n gysylltiedig â COVID-19.
- Croesawodd SG hefyd yr ymdrechion a wnaed i gynnal a symud y gwerthusiad o Ymchwil a Gwerthuso yn ei flaen yn ystod y pandemig. Croesawodd y bwriad i ddatblygu dull strategol ar lefel sefydliadol a fyddai'n cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.
- Croesawodd MM y dull sefydliad cyfan a gofynnodd am fanylion pellach am y model cyflawni a'r amserlenni. Gofynnodd hefyd am amserlenni o ran cwblhau dau ddarn o waith sy'n dal ar y gweill, sef: 4.31 ynghylch anghydraddoldebau COVID-19 mewn gwasanaethau sgrinio canser a 4.32 ynghylch Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Cadarnhaodd IB y gwaith cwmpasu sydd ar y gweill ar y dull strategol ar gyfer y sefydliad cyfan, gyda model 'siop un stop' fel yr opsiwn a ffefrir. Byddai hyn yn adlewyrchu ymchwil sy'n cael ei gynnal ar draws y sefydliad gyda chydlynu a blaenoriaethu ar waith i gynorthwyo'r Bwrdd i wneud penderfyniadau strategol. O ran yr ymholiadau penodol, cadarnhaodd AD y byddai 4.31 wedi'i gwblhau erbyn Nadolig 2021, a disgwylir cwblhau 4.32 yn gynnar yn 2022. Cadarnhaodd y byddai'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd yn ystyried y ddau ddarn o waith.

HEB EU CADARNHAU

- Nododd DE fod yr adroddiad yn nodi faint o ymchwil sydd ar y gweill a holodd ynghylch lefel yr hyder o ran cipio canlyniadau a'r defnydd o'r rhain i gefnogi gwneud penderfyniadau strategol. Dywedodd IB fod her allweddol o ran sicrhau bod dadansoddiad a thystiolaeth ymchwil ar gael ac wedi'i gyflwyno mewn modd a fyddai'n cefnogi ei roi ar waith; byddai hyn yn caniatáu dull systematig o ddefnyddio ymchwil i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- Croesawodd DC y cydweithredu â'r sector Addysg Uwch a chyrff strategol eraill. Gofynnodd a fyddai COVID-19 yn parhau i ddylanwadu ar flaenoriaethau sefydliadol a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar draws Addysg Uwch. Nododd IB y prosesau sydd ar waith i graffu ar allbwn a'r gwaith i systemu ymchwil; byddai hyn yn cynnwys gwaith a wnaed gan SAU.

**Ystyriodd** y Bwrdd y gwaith sy'n mynd rhagddo yn ymwneud ag ymchwil gan **gymryd sicrwydd** ohono a **nododd** y byddai'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd sydd wedi'i ailsefydlu yn ceisio sicrwydd ar y maes gwaith hwn.

**PHW 286.2/2021 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Wrth gyflwyno'r Adroddiad, tynnodd TC sylw at y pwyntiau canlynol:

- Y gwaith a wnaed gan JB a'r tîm i ddatblygu Strategaeth Gwelliant Cymru; cychwynnodd camau i adolygu ffyrdd o weithio yn 2019, er bod y pandemig wedi arafu cynnydd, gyda staff yn symud i rolau eraill. Nododd JB y cyfleoedd yr oedd hyn wedi'u cyflwyno i arsylwi modelau gwasanaeth a chyflawni ar draws y sector, gan gasglu safbwyntiau rheng flaen a strategol. Mae'r Strategaeth ddiwygiedig bellach yn fodel sydd wedi'i gydlynu'n genedlaethol ond â ffocws rhanbarthol, wedi'i gynllunio i gefnogi proffiliau rhanbarthol penodol.
- Cyfarfod diweddar ag Iechyd Cyhoeddus yr Alban a ganolbwyntiodd ar niwed ehangach yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nododd TC ei bod i fod i fynychu cyfarfod pedwar Prif Swyddog Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yr wythnos ganlynol. Nododd fod cynrychiolaeth ar gyfer Lloegr yn debygol o adlewyrchu'r strwythurau diwygiedig sydd bellach ar waith.
- Roedd TC wedi ceisio datblygu ymhellach gysylltiadau gwaith agos â chydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol (ALl) yn ystod y misoedd diwethaf, yn rhannol o ganlyniad i COVID-19. Roedd wedi bod yn arbennig o berthnasol i swyddogaethau iechyd yr amgylchedd. Roedd gweithdy diweddar wedi archwilio sut y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru helpu ALl i feithrin cymunedau iach a chynaliadwy.
- Roedd y sefydliad wedi cymryd rhan yng Nghynllun Ardystio Cymhwysedd Diwylliannol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), a drefnwyd gan Diverse Cymru, ac wedi cyflawni'r lefel uchaf ond un o 'gymhwysedd'. Nododd TC fod hyn yn gydnabyddiaeth ragorol o'r gwaith a wnaed hyd yma ac estynnodd ei diolch i'r rhai a gymerodd ran.
- Dyfarnwyd Cymrodoriaeth i IB gan yr Academi Gwyddorau Cymdeithasol.

Yna gwahoddodd TC gwestiynau:

HEB EU CADARNHAU

Croesawodd MM y bartneriaeth sydd wrthi'n datblygu â Llywodraeth Leol a chefnogodd yr ymrwymiad i gydweithio ar faterion allweddol. Diolchodd i TC am ei harweinyddiaeth wrth ddatblygu partneriaethau strategol yng Nghymru a ledled y DU.

**Derbyniodd** y Bwrdd yr adroddiad a **chymerodd sicrwydd** o'r diweddariadau a ddarparwyd

**PHW 286.3/2021 EGWYL**

**PHW 286.4/2021 Adroddiad Integredig ar Berfformiad**

Wrth gyflwyno'r Adroddiad Integredig ar Berfformiad, myfyriodd HG ar y dull gwella parhaus a fabwysiadwyd gan y sefydliad, ac amlinellodd y gwaith a wnaed i ddatblygu'r adroddiad ymhellach, gan ddarparu fformat mwy cryno a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni a meysydd a oedd yn destun pryder. Roedd hyn yn cynnwys rhoi mwy o bwyslais ar y Dangosfwrdd, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o berfformiad ac i hyrwyddo trafodaethau strategol yn y Bwrdd. Roedd y gwelliannau'n cynnwys pedair prif thema a oedd yn adlewyrchu *Cymru Iachach* a'r Fframwaith Cyflawni.

Gwahoddodd HG arweinydd pob Thema i dywys aelodau'r Bwrdd drwy'r materion allweddol.

<u>Thema 1: Cynnal gweithlu iach a chynaliadwy</u>

Tynnodd NL sylw at y materion allweddol, gan bwysleisio bod y gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac y byddai'n cael ei fireinio ymhellach. Nododd:

- Gynnydd o ran trosiant ond nid oedd unrhyw feysydd penodol yn peri pryder. Roedd y cynnydd yn ymwneud â chwblhau rhai contractau tymor penodol ac ymddeoliad.
- Bod angen rhoi sylw pellach i'r gofynion hyfforddi statudol a gorfodol.
- Bod cydymffurfiaeth o ran arfarnu'n parhau i fod yn is na'r disgwyl; byddai gwaith wedi'i dargedu mewn adrannau a nodwyd yn anelu at fynd i'r afael â hyn gan weithio â rheolwyr a Chyfarwyddwyr arweiniol.
- Dim pryderon mawr ynghylch salwch ac absenoldeb. Roedd y niferoedd yn isel o gymharu â sefydliadau eraill GIG Cymru.

Dywedodd NL y byddai'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl, yn ei gyfarfod ar 15 Hydref, yn canolbwyntio ar y materion hyn. Yna gwahoddodd gwestiynau:

- Gofynnodd SG am gadarnhad ynghylch y gwaith o fonitro'r broses frechu flynyddol rhag ffliw, er mwyn sicrhau lefel cydymffurfiaeth mor uchel â phosibl. Cadarnhaodd RB-W fod yr ymgyrch ffliw ar fin cael ei lansio ac y byddai, fel bob amser, yn cynnwys proses fonitro drylwyr.
- Croesawodd MM y fformat diwygiedig ac awgrymodd y dylid cynnwys dangosyddion cydraddoldeb yn y dyfodol.

**Camau gweithredu: NL**

HEB EU CADARNHAU

Thema 2: Sicrhau Gwerth ac Effaith

Nododd HG nad blwyddyn 'gyffredin' mohoni, a bod angen ystyried yr adferiad o COVID-19 yn y rhagolwg. Cadarnhaodd mai'r nod oedd sicrhau bod dyraniad a gwariant y gyllideb yn cael ei broffilio a'i flaenoriaethu'n briodol, gan dynnu sylw at y rhaglen gyfalaf fawr eleni, yn gysylltiedig â systemau digidol newydd i gefnogi sgrinio.

Thema 3: Ansawdd Sefydliadol a Mynediad at Wasanaethau o Ansawdd Uchel

Ystyriodd MK y thema hon mewn dwy ran:

3 (a) Ansawdd sefydliadol yn canolbwyntio ar wasanaethau sgrinio ar gyfer sgrinio'r fron, sgrinio'r colyddyn a sgrinio llygaid diabetig. Nododd MK fod y sefyllfa'n siomedig am sawl rheswm gan gynnwys: absenoldeb heb eu cynllunio o ganlyniad i salwch yn cyd-daro â seibiannau wedi'u cynllunio ar ganol haf; cyfyngiadau sesiynol o ran colonosgopïau; a lleoliadau priodol ar gyfer sgrinio llygaid. Nododd y sefyllfa 100% o ran sgrinio llygaid ym mis Awst, a'r nod oedd cynnal hyn. Holodd MM beth oedd ystyr seibiant wedi'i gynllunio ac os oedd angen adolygu'r broses gynllunio; cadarnhaodd MK mai'r absenoldebau heb eu cynllunio oedd y prif achos, yn hytrach na seibiannau wedi'u cynllunio.

Gofynnodd KE pam nad oedd data mis Awst ar gael. Addawodd MK y byddai'n ymchwilio i unrhyw oedi o ran y data ac yn ceisio datrys hyn lle bo hynny'n bosibl.

**Camau gweithredu: MK**

3 (b) Mynediad at Wasanaethau o Ansawdd Uchel Nododd RB-W y nifer fawr o ddigwyddiadau sy'n parhau heb eu datrys - roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â sgrinio. Cadarnhaodd bod adnoddau ychwanegol ar gael i ddatrys y digwyddiadau hyn yn amserol. Roedd cydymffurfiaeth â gofynion cwynion yn 100% ac roedd hyn yn gadarnhaol. Tynnodd RB-W sylw at un digwyddiad adroddadwy yn genedlaethol yn ymwneud â sgrinio llygaid diabetig; cadarnhaodd eu bod wedi cysylltu â'r holl gyfranogwyr i gynnig apwyntiadau a monitro.

Thema 4: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth

Tynnodd MK sylw at waith datblygu pellach eleni er mwyn sicrhau ystod briodol o ddangosyddion. Roedd yr adroddiad ar gyfer y thema hon, felly, ar y gweill.

Diolchodd KE i HG am y dull gweithredu newydd a fyddai'n caniatáu i'r Bwrdd ganolbwyntio ar faterion allweddol gan ddefnyddio data sy'n hawdd ei ddeall.

**Ystyriodd** y Bwrdd yr adroddiad, **croesawodd** y dull gweithredu newydd a **chymerodd sicrwydd** o'r trafodaethau.

HEB EU CADARNHAU

**PHW 286.5/2021 Diweddariad Cyffredinol ar y Coronafeirws Newydd (COVID-19)**

Rhoddodd MK y diweddariad canlynol:

- Roedd nifer yr achosion dyddiol o COVID-19 yn parhau oddeutu 3000, gyda chyfradd saith diwrnod o dros 650 fesul 100k o'r boblogaeth.
- Roedd nifer yr achosion yn cynyddu wrth i'r feirws gyrraedd y grwpiau oedran hynny sy'n fwy agored i'w ddal.
- Roedd effaith yr haint ar y rhai sydd wedi cael eu brechu yn gadarnhaol ar y cyfan yn yr ystyr eu bod yn llai tebygol o orfod mynd i'r ysbyty.
- Roedd Cymru wedi bod ar Lefel Rhybudd 0 ers dechrau mis Awst; roedd rhyngweithio cymdeithasol wedi cynyddu o ganlyniad. Roedd data'n dangos bod y niferoedd ar gyfer y grŵp oedran 0-19 oed wedi cynyddu'n sydyn. Roedd hyn yn gysylltiedig â phresenoldeb yn yr ysgol.
- Nid oedd y niferoedd sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty mor uchel ag o'r blaen ond gwelwyd cynnydd cyson yn ystod y 4-6 wythnos diwethaf.
- Bu cynnydd bach yn y dangosyddion marwolaeth ond roedd hyn yn amrywio o ddydd i ddydd ac roedd y niferoedd yn fach o gymharu ag yn gynharach yn y pandemig.
- Erbyn hyn roedd 85% o'r boblogaeth wedi cael dau ddos o'r brechlyn; roedd rhaglenni brechu atgyfnerthu bellach ar y gweill, ynghyd â brechu plant dan 16 oed.
- Roedd timau brechu yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i ddarparu'r brechiad atgyfnerthu ynghyd â'r brechiad blynyddol rhag y ffliw.
- Roedd profion yn cael eu hehangu, yn barod ar gyfer misoedd y gaeaf, i fonitro lefelau'r ffliw a'r Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) i sicrhau bod achosion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac i gefnogi camau iechyd cyhoeddus amserol.
- Byddai'r sefyllfa o ran teithwyr yn dychwelyd i Gymru yn dibynnu ar y polisi profi sydd ar waith. Gallai mwy o deithio rhyngwladol hefyd greu'r perygl o gyflwyno amrywiolion newydd ac roedd strategaethau profi ar waith i geisio cofnodi hyn.
- Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ymateb a rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru a phartneriaid strategol eraill.

**Cymerodd** y Bwrdd **sicrwydd** o'r diweddariad llafar a ddarparwyd.

**PHW 286.6/2021 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad Gan Gadeiryddion y Pwyllgorau**

Gwahoddodd KE Gadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i roi diweddariad:

<u>Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol</u>

Cyfeiriodd DE aelodau'r Bwrdd at ei adroddiad ysgrifenedig i gael diweddariad manwl ar waith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Yn ogystal, nododd, gan fyfyrio ar ymrwymiad Iechyd Cyhoeddus Cymru i welliant parhaus,

HEB EU CADARNHAU

fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi gofyn am fewnbwn a chyngor y gwasanaeth archwilio mewnol i ystyried y Cynllun Gweithredol a'r Adroddiad ar Lesiant Staff ac wedi cymryd sicrwydd o'r prosesau hyn.

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

Cyfeiriodd KE yr aelodau hefyd at yr adroddiad a'r ystod o sicrwydd yr oedd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi'i gymryd o ganlyniad i'w waith.

**Cymerodd** y Bwrdd **sicrwydd** o'r adroddiadau a ddarparwyd.

**PHW 287/2021 Eitemau i'w Cymeradwyo**

**PHW 287.1/2021 Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd (dyddiad y cyfarfod)**

**Nododd** y Bwrdd y Cofnod o Gamau Gweithredu a'r diweddariadau a oedd wedi'u cynnwys ar gyfer y cyfarfod.

**PHW 287.2/2021 Diweddariad ar Risg Strategol**

Wrth gyflwyno'r eitem hon ar yr agenda, nododd KE yr holl waith hyd yma i nodi'r risgiau strategol newydd, y cytunwyd ar y disgrifyddion ar eu cyfer gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2021, a sut yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bwriadu rheoli a lliniaru'r rhain.

Risgiau Strategol

Atgoffodd RB-W y Bwrdd ei fod wedi cytuno i'r dull strwythur risg, sy'n cydnabod bod risg yn gysyniad deinamig ac, wrth weithio drwy'r prosesau llywodraethu, y gallai fod angen ei addasu. Cyfeiriodd aelodau at y pum risg strategol newydd, ynghyd â'u rheolyddion a'u camau lliniaru a nododd hefyd y newidiadau a wnaed i arddull a fformat nodi risg.

Diolchodd KE i RB-W a gofynnodd am sylwadau a chwestiynau:

- Croesawodd MM y dull gweithredu ac roedd yn ystyried bod y newid yn y dull yn cynrychioli gwelliant a chynnydd pellach o ran nodi a chyflwyno risg strategol. Cynigiodd addasiad i'r fformat, er mwyn nodi trywydd y risg - p'un a oedd y risg yn cynyddu dros amser neu'n gwella.
- Gofynnodd KE am eglurder ynghylch y trafodaethau a gynhaliwyd gan swyddogion gweithredol a arweiniodd at y cynnig i symud Risg 2 i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Crynhodd RB-W y trafodaethau hyn a rhoddodd sicrwydd y byddai'r risg hon yn cael ei monitro'n fanwl ac y gellid ei dychwelyd i'r Gofrestr Risg Strategol pe bai'r Bwrdd yn penderfynu bod cyfiawnhad dros wneud hynny.

Yn dilyn trafodaethau cytunodd y Bwrdd ei fod bellach yn fwy priodol i Risg 2 fod ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ond y dylid parhau i ystyried hyn. Nododd yr

HEB EU CADARNHAU

aelodau fod Risg 4 yn gyfrinachol o ran ei natur ac y bydd y cael ei hystyried ymhellach yn sesiwn breifat y Bwrdd.
**Camau gweithredu: RB-W**

Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol

Crynhodd RB-W y gwaith a wnaed i adnewyddu ac adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, gyda rhai risgiau'n cael eu trosglwyddo i Gofrestrau Risgiau Adrannol lle bo hynny'n briodol. Cadarnhaodd RB-W y byddai hon yn broses barhaus gyda'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu'r berthynas â Risgiau Adrannol a Strategol. Gofynnodd i'r Bwrdd ystyried a chymeradwyo'r newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Holodd DE am lefel yr ymgysylltiad â gweithlu ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch eu barn a'u persbectif ar risgiau. Cadarnhaodd RB-W y dylai pob arweinydd adrannol sicrhau ymgysylltiad llawn â staff yn y broses o nodi a lliniaru risg; roedd hyn yn ein galluogi i adlewyrchu'n ymarferol yr egwyddor bod risg yn 'fusnes i bawb'.

Croesawodd MM y gwaith a wnaed. Holodd faint o risg a oedd ynghlwm wrth barodrwydd ar gyfer Ymchwiliad Cyhoeddus. Cadarnhaodd HB fod sail yr asesiad cyfredol yn adlewyrchu diffyg manylder neu eglurder ynghylch sut y byddai'r broses ymchwilio yn gweithredu, yn hytrach na diffyg parodrwydd; er bod angen cadarnhau'r gofynion o ran adnoddau mewnol yn y dyfodol.

**Ystyriodd** y Bwrdd y Risgiau Strategol a'r camau lliniaru arfaethedig. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y cynnig i drosglwyddo risg 2 i'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol; a **chymeradwyodd** risgiau 1, 3, 4 a 5 fel Risgiau Strategol gyda risg 4 i'w hystyried mewn sesiwn breifat.

**PHW 287.3/2021 Adroddiad: Achos o Dwbercwlosis (Llwynhendy)**

Rhoddodd MK ddiweddariad ar yr achos o dwbercwlosis (TB) yn ardal Llwynhendy, Sir Gaerfyrddin a chomisiynu adolygiad allanol, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD), o'r modd y cafodd yr achos ei reoli. Cadarnhaodd fod y broses adolygu allanol yn dilyn yr adolygiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019; cafodd y gwaith ei oedi dros dro oherwydd y pandemig COVID-19. Gofynnodd MK am gefnogaeth y Bwrdd i'r Cylch Gorchwyl a oedd yn nodi'r gofynion manwl ar gyfer y broses adolygu.

Cynigiodd SG y dylai'r Cylch Gorchwyl gyfeirio at arfer gorau rhyngwladol , yn hytrach nag arfer gorau cenedlaethol. Cytunodd MK y byddai hyn yn ddefnyddiol a chytunodd i newid y Cylch Gorchwyl.

**Camau gweithredu: MK**

HEB EU CADARNHAU

| |
|---|
| **Nododd** y Bwrdd y cynnydd o ran sefydlu'r adolygiad allanol a **chymerodd sicrwydd** o hyn. **Cymeradwyodd** y Bwrdd hefyd y Cylch Gorchwyl, yn amodol ar y gwelliant i adlewyrchu arfer gorau rhyngwladol. |
| **PHW 288/2021 Eitemau i'w nodi** |
| **PHW 288.1/2021 Strategaeth Gwelliant Cymru** |
| **Nodwyd** y Strategaeth. |
| **PHW 289/2021 Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd** |
| Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 25 Tachwedd 2021. |
| **PHW 290/2021 Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm. |

HEB EU CADARNHAU